Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Tlodi Plant

## Ein cynlluniau i wneud yn siŵr bod plant yng Nghymru yn byw yn dda

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Strategaeth Tlodi Plant**'.

**Rhagfyr 2023**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i’w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i’w deall. Gallwch edrych beth mae’r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 32**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Gwefan:** www.llyw.cymru

**Ffôn**: 03000 616056

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

# Cynnwys

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon ........ 2**

**Am beth mae'r llyfryn hwn yn sôn ........ 4**

Nod 1 – gwneud costau'n is a gwneud yn siŵr bod gan deuluoedd fwy o bres ........ 8

Nod 3 – cefnogi lles plant a theuluoedd ........ 20


Nod 4 – Gwneud yn siŵr bod pob plentyn a theuluoedd yn cael eu trin yn dda gan wasanaethau ........ 25

Nod 5 – Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n dda gyda'i gilydd ........ 29

**Sut y byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud pethau'n iawn ........ 31**

**Geiriau anodd ........ 32**

# Am beth mae'r llyfryn hwn yn sôn


Hawdd ei Ddeall

Strategaeth Tlodi Plant

Ein cynlluniau i wneud yn siŵr bod plant yng Nghymru yn byw yn dda

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Strategaeth Tlodi Plant**'.

Mae'r llyfryn hwn yn sôn am ein cynlluniau i rwystro **tlodi** plant yng Nghymru.



**Tlodi** yw pan nad oes gan rywun y pethau pwysig sydd eu hangen arnyn nhw i fyw yn dda. Mae hyn yn meddwl nad oes ganddyn nhw ddigon o bethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.



Pan fyddwn ni'n dweud plentyn, rydyn ni'n meddwl rhywun sydd ddim mwy nag 18 oed.



Pan fyddwn ni'n dweud person ifanc, rydyn ni'n meddwl rhywun sydd ddim mwy na 25 oed.




Mae arnon ni eisiau i bob plentyn a phobl ifainc gael:

- eu hawliau
- pethau sy'n gwneud lles
- a'r cyfle i wneud eu gorau mewn bywyd.



Ein cynlluniau yw helpu i gael gwared â **thlodi** plant a'r effeithiau mae'n ei gael, dros y deng mlynedd nesaf neu fwy.




Rydyn ni wedi rhoi pum nod mawr at ei gilydd ac rydyn ni'n galw'r rhain yn **nodau**.




Ac rydyn ni wedi gwneud pum **blaenoriaeth**. Dyma'r pethau sy'n fwyaf pwysig i'w gwneud yn gyntaf.



Rydyn ni wedi gofyn i bobl beth roedden nhw'n feddwl am y rhain.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â beth roedden ni'n ddweud.

Mae plant yn fwy tebygol o fod mewn perygl o **dlodi**:



- Os ydyn nhw'n byw mewn teulu ble nad oes yr un oedolyn yn gweithio. Ond mae llawer o blant hefyd yn cael profiad o **dlodi** pan fydd eu teulu'n gweithio.



- Pan fydd plentyn yn byw gydag un rhiant.



- Mewn teuluoedd Du, **Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig**.

Gall pobl o grwpiau **Du**, **Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig** ddod o wahanol wledydd, neu efallai mai eu teuluoedd sydd wedi dod. Efallai bod eu credoau, eu gwerthoedd, a'u diwylliannau yn wahanol i'r rhan fwyaf o bobl eraill yn eu cymuned.



- Mewn cartrefi ble mae person anabl yn byw.




Gwnaethon ni'r cynllun hwn trwy edrych ar wahanol ddeddfau a chynlluniau sy'n barod wedi'u gosod yn eu lle.



Nawr byddwn yn siarad yn fwy manwl am bob un o'n nodau. A'r pethau sy'n fwyaf pwysig i'w gwneud yn gyntaf. **Y blaenoriaethau** yw'r rhain.



# Nod 1 – gwneud costau’n is a gwneud yn siŵr bod gan deuluoedd fwy o bres



Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod teuluoedd yn gwybod pa help y gallan nhw ei gael.



Mae hefyd yn meddwl eu cefnogi gyda chostau pethau fel bwyd, gwres a chartrefi.



Weithiau gall fod yn anodd i bobl gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw.



Mae arnon ni eisiau iddi fod yn haws i bobl gael yr help a’r pethau sydd eu hangen arnyn nhw.



Pan fydd ar deuluoedd angen gwneud cais am **fudd-daliadau lles**, dylai fod yn haws gwneud hynny.



Mae **budd-daliadau lles** yn arian gan lywodraeth y DU i gefnogi pobl. Maen nhw'n cael eu galw'n bethau fel Credyd Cynhwysol, Budd-dal Plant neu Daliadau Annibyniaeth Personol.




Mae'r System Fudd-daliadau Cymreig yn ymwneud â chefnogaeth gyda phethau fel treth y cyngor, gwisg ysgol a help mewn argyfwng.

## Gwneud costau'n is



Rydyn ni'n gwneud popeth rydyn ni'n gallu i wneud costau'n is ar gyfer y pethau pwysig sydd ar bobl eu hangen.



Mae'n gallu bod yn anodd i deuluoedd dalu am fwyd. Yn enwedig os ydyn nhw'n gorfod siopa mewn siopau bach lleol.




Mae pob plentyn sy'n mynd i ysgol sy'n cael ei redeg gan y cyngor lleol yn gallu gofyn am frecwast am ddim.



O fis Medi 2024 bydd pob plentyn yn cael cynnig prydau ysgol am ddim.

## Gwresogi



Pan na fydd teuluoedd yn gallu fforddio gwresogi eu cartref, gall hynny effeithio ar eu hiechyd.




Mae rhai teuluoedd yn gorfod penderfynu a ydyn nhw'n mynd i 'fwyta neu roi'r gwres ymlaen'.



Mae gennym ni gefnogaeth ar draws Cymru ar gyfer pobl sy'n defnyddio **mesuryddion rhagdalu** ar gyfer eu gwres.

Mae **mesuryddion rhagdalu** yn beiriannau sy'n mesur faint o nwy a thrydan rydych chi'n ei ddefnyddio er mwyn i chi fedru talu amdano fesul tipyn o flaen llaw.




Mae gennym ni gynllun ar gyfer ffordd o wneud yn siŵr bod gwres:

- yn rhatach i bobl
- ac yn well ar gyfer y blaned.

## Dŵr




Mae llawer o deuluoedd yn ei chael hi’n anodd talu eu biliau dŵr.




Mae cwmnïau dŵr yn gallu gwneud biliau’n is i rai pobl sydd â llai o arian. A gallan nhw gynnig cefnogaeth arall.



Rydyn ni’n chwilio i mewn i hyn i wneud yn siŵr bod digon o help ar gael.

## Gwneud costau ysgol yn is



Roedd plant yn dweud eu bod yn ei chael hi’n anodd pan na fydd teuluoedd yn gallu fforddio prynu pethau sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer ysgol.Er enghraifft, gwisg ysgol neu offer.



Mae grantiau ar gael i gefnogi pobl â hyn.

## Costau iechyd



Mae gennym ni rai pethau yn eu lle i gefnogi pobl â chostau iechyd.

Er enghraifft:



- presgripsiynau am ddim
- cynnyrch ar gyfer merched yn ystod eu mislif



- pethau ar gyfer babanod newydd.

## Blaenoriaeth 1 – rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl



- Gwneud yn siŵr bod system **fudd-daliadau** Cymru yn garedig ac yn hawdd ei defnyddio.



- Gwneud yn siŵr bod y mudiadau sy'n gweithio gyda theuluoedd yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i gael gwybod am yr help y gallan nhw ei gael â budd-daliadau ac arian.



- Gwneud yn siŵr nad yw addysg yn costio arian i deuluoedd.



# Nod 2 – rhoi cefnogaeth i blant, pobl ifainc a theuluoedd i beidio â bod yn dlawd



Mae plant sy'n cael profiad o **dlodi** yn llai tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol.



Mae arnon ni eisiau i bob plentyn gael  y cyfle i wneud yn dda yn yr ysgol. Ac i blant gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw os oes ganddyn nhw anghenion ychwanegol.



Os yw plant yn cael eu trin yn annheg, gall effeithio ar eu gallu i wneud yn dda yn yr ysgol.



Er enghraifft, oherwydd eu rhywedd, eu rhywioldeb, eu cefndir neu eu hanabledd.



Mae arnon ni hefyd angen cefnogi teuluoedd i gael gwaith teg gyda thâl teg.

# Y dechrau gorau mewn bywyd



Rydyn ni'n gwybod y bod **tlodi** yn gallu effeithio ar ddatblygiad plentyn bach.



Os bydd plant yn cael y gefnogaeth iawn yn gynnar, mae hynny'n gallu helpu eu hiechyd corfforol a meddyliol.



**Dechrau'n Deg** yw enw'r rhaglen sy'n rhoi cefnogaeth i blant bach yn yr ardaloedd mwyaf tlawd yng Nghymru.



Mae rhaglenni eraill ar gael hefyd ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar.



Mae gofal plant yn bwysig hefyd. Rydyn ni'n talu am ofal plant, hyd at 30 awr yr wythnos, ar gyfer rhieni sy'n gweithio.



Mae cefnogaeth ar gael hefyd ar gyfer plant sydd ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol** a phlant hŷn.

## Economi Cymru



Mae economi Cymru yn meddwl faint o arian sydd gan Gymru fel gwlad.



Mae hyn yn dibynnu ar bethau fel:

- faint o waith sydd yng Nghymru,
- a faint o bethau rydyn ni'n eu gwneud ac yn eu gwerthu.




Mae cael economi cryf a chefnogi pobl i wneud yn dda yn rhan bwysig o daclo **tlodi plant**.



Mae gennym ni gynlluniau yn eu lle i gefnogi pobl i gael gwaith teg gyda thâl. Ac i ddatblygu mwy o wasanaethau yng Nghymru. Er enghraifft, technoleg.

## Cludiant



Mae cael cludiant cyhoeddus da y gall pobl ei fforddio yn bwysig. Mae'n gallu ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd gwaith a'r ysgol.



Mae gennym ni gynllun wedi'i osod yn ei le i wella cludiant cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys codi pris tecach ar gludiant cyhoeddus.

## Blaenoriaeth 2 – cenedl Gwaith Teg




Rydyn ni'n cefnogi'r **Cyflog Byw Gwirioneddol**. Mae hyn yn meddwl hynny o dâl y gall pobl fforddio byw arno.



Mae arnon ni eisiau i bobl gael:

- gwaith sydd yn deg
- a'r gefnogaeth sydd arnyn nhw ei hangen i wneud eu gwaith.



Mae arnon ni hefyd eisiau iddi fod yn haws i'r grwpiau o bobl sy'n aml yn cael eu gadael allan o fyd gwaith i gael gwaith. Er enghraifft, menywod, pobl anabl a gofalwyr.



Mae arnon ni hefyd eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu fforddio gofal plant a chludiant a bod tâl am waith yn deg.


# Nod 3 – cefnogi lles plant a theuluoedd



Dywedodd pobl wrthyn ni bod arnyn nhw eisiau byw mewn cartrefi o ansawdd da mewn cymunedau agos.



Mae ar bobl hefyd eisiau cael dweud eu barn am eu cymunedau.




Mae ar bobl eisiau cael gwasanaethau yn agos at ble maen nhw'n byw. Ac mae'n aml yn bwysig bod gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd.



Mae ar bobl eisiau byw mewn cymunedau sy'n dda ar gyfer eu hiechyd a'u lles.



Mae plant a phobl ifainc wedi siarad am bwysigrwydd mannau gwyrdd.  Fel parciau a gerddi.





Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod hawliau plant yn cael eu hamddiffyn. Mae hyn y cynnwys gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw le o ansawdd da i fyw ynddo. Mewn ardal dda.

## Cartref o ansawdd da




Daeth deddf allan yng Nghymru y flwyddyn diwethaf sy'n cael ei galw'n **Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru)**.



Roedd hyn er mwyn helpu i wella safonau tai rhent yng Nghymru.



Mae gennym ni hefyd lawer o gynlluniau i helpu i wneud yn siŵr na fydd pobl heb gartref byth eto yng Nghymru.

## Cymunedau



Mae arnon ni angen gweithio gyda chymunedau i helpu i’w gwella.



Mae ein rhaglen sy’n cael ei alw’n **Raglen Cyfleusterau Cymunedol** yn rhoi arian i gymunedau ar draws Cymru.



Mae’n gallu cael ei ddefnyddio i ddatblygu a gwella adeiladau a mannau gwyrdd.



Rydyn ni’n cefnogi awdurdodau lleol a mudiadau eraill i wneud yn siŵr bod digon o gyfleoedd i blant chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon.

## Cefnogi teuluoedd



Mae ar bob teulu angen cefnogaeth weithiau.



Mae’r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** yn wasanaeth cyngor a gwybodaeth ar gyfer teuluoedd a gofalwyr.



Mae gwasanaeth **Teuluoedd yn Gyntaf** ar gael hefyd. Mae’n cefnogi teuluoedd sydd â llawer o wahanol broblemau.

## Iechyd meddwl a lles



Mae plant sy’n cael eu magu mewn **tlodi** yn fwy tebygol o gael profiad o broblemau iechyd meddwl.



Mae ein cynlluniau i gefnogi iechyd meddwl yn cael eu galw’n:

- **Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl**
- a **Beth am Siarad â Fi**.

## Blaenoriaeth 3 - Datblygu cymunedau



Byddwn yn meddwl mwy am gymunedau.



Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd yn well. Bydd hyn yn helpu pobl gael y gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw'n haws ac yn lleol.




Byddwn yn cefnogi ysgolion i feddwl mwy am eu cymunedau a'u cefnogi nhw'n well.



Byddwn yn gwneud yn siŵr bod mwy o gyfleoedd i chwarae, chwaraeon, a gweithgareddau eraill ar draws Cymru. A bod pobl yn gallu eu fforddio.



# Nod 4 – Gwneud yn siŵr bod pob plentyn a theuluoedd yn cael eu trin yn dda gan wasanaethau



Mae'n bwysig bod teuluoedd a'u plant yn cael eu trin yn dda gan wasanaethau sydd i fod i'w cefnogi.



Ddylen nhw ddim cael eu trin yn annheg oherwydd **tlodi** nac unrhyw beth arall.



Mae llawer o bobl yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu trin yn dda gan wasanaethau. A dydyn nhw ddim bob amser yn teimlo bod pobl yn gwrando arnyn nhw.



Roedd plant yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan os nad oedd eu teuluoedd yn medru fforddio pethau yn yr ysgol. Er enghraifft, tripiau ysgol.




Roedd rhai plant a phobl ifainc yn dweud eu bod yn teimlo nad oedd pobl yn gwrando arnyn nhw nac yn eu deall. Er enghraifft, **plant ag anghenion dysgu ychwanegol**.



Mae’n rhaid i blant gael eu trin yn dda bob amser, dim ots faint o arian sydd gan eu teuluoedd.



Dylai gwasanaethau fod yn garedig ac yn gefnogol. A dylai plant gael profiadau da yn yr ysgol.

## Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifainc yn cael dweud eu barn




Cymru yw’r wlad gyntaf yn y DU i gael Comisiynydd Plant. Eu gwaith yw gwneud yn siŵr bod hawliau plant yn cael eu hamddiffyn.



Rydyn ni hefyd yn rhoi arian i wasanaeth sy’n cael ei alw’n **Cymru Ifanc**. Mae hwn yn cefnogi plant i siarad am faterion sy’n bwysig iddyn nhw.

## Cefnogi ysgolion i ddeall tlodi a gwella



Rydyn ni wedi rhoi llawer o gyngor a chefnogaeth i ysgolion i'w helpu i ddeall **tlodi**.



Rydyn ni wedi rhoi canllawiau i ysgolion i'w helpu i feddwl am iechyd meddwl a lles plant.



Mae arnon ni eisiau i blant gael profiad da o ysgol. Ac iddyn nhw fedru gwneud ffrindiau a medru tynnu 'mlaen gyda phobl.



Mae'n rhaid i ysgolion hefyd wneud yn siŵr eu bod yn delio â bwlio.

# Blaenoriaeth 4 – Cynnwys plant



Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod hawliau plant yn cael eu hamddiffyn.



Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu cefnogi yn y ffordd iawn. A bod mudiadau sy'n gweithio gyda phlant yn gwybod sut i'w cefnogi yn dda.



Mae'n rhaid i blant gael eu trin yn dda, beth bynnag yw eu cefndir. Ddylen nhw ddim methu cymryd rhan oherwydd **tlodi** neu **wahaniaethu**. Er enghraifft, oherwydd anabledd, **ethnigrwydd**, rhywioldeb neu rywedd.



**Gwahaniaethu** yw trin rhwyun yn wael neu'n annheg oherwydd pethau fel anabledd, rhywioldeb neu rywbeth arall.



# Nod 5 – Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n dda gyda'i gilydd



Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o wahanol gynlluniau a nodau. Mae'n rhaid i'r rhain weithio'n dda gyda'i gilydd i wneud y gwahaniaeth mwyaf.




Mae'n rhaid i fudiadau weithio'n dda gyda'i gilydd i daclo **tlodi.**




Dylai pob mudiad weithio'n dda gyda'i gilydd i wneud yn siŵr eu bod yn cwrdd â hawliau plant.

## Blaenoriaeth 5 – gweithio gyda'i gilydd




Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau a'n nodau yn gweithio gyda'i gilydd i daclo **tlodi**.



Byddwn yn gweithio gyda mudiadau eraill i wneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio yn y ffyrdd gorau.




Byddwn yn edrych ar ffyrdd y gall mudiadau weithio'n dda gyda'i gilydd i daclo **tlodi**.




Byddwn yn rhoi arweiniad i fudiadau ynglŷn â rhoi cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl.



# Sut y byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud pethau'n iawn




Byddwn yn ysgrifennu adroddiad bob tair blynedd i ddangos beth rydyn ni wedi ei wneud.



Byddwn yn gofyn i bobl sy'n byw mewn **tlodi** a ydyn nhw'n meddwl ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth.




Byddwn yn gwneud adroddiad fydd yn cael ei alw'n **Adroddiad Cynnydd Tlodi Plant**. Bydd yn dod allan ym mis Rhagfyr 2025.

# Geiriau anodd

## Budd-daliadau lles

Mae budd-daliadau lles yn arian gan Lywodraeth y DU i gefnogi pobl. Maen nhw'n cael eu galw'n bethau fel Credyd Cynhwysol, Budd-dal Plant neu Daliadau Annibyniaeth Personol.

## Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig

Gall pobl o grwpiau Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig ddod o wahanol wledydd, neu efallai mai eu teuluoedd sydd wedi dod. Efallai bod eu credoau, eu gwerthoedd, a'u diwylliannau yn wahanol i'r rhan fwyaf o bobl eraill yn eu cymuned.

## Mesuryddion rhagdalu

Mae mesuryddion rhagdalu yn beiriannau sy'n mesur faint o nwy a thrydan rydych chi'n ei ddefnyddio er mwyn i chi fedru talu amdano fesul tipyn o flaen llaw.

## Tlodi

Tlodi yw pan nad oes gan rywun y pethau pwysig sydd eu hangen arnyn nhw i fyw yn dda. Mae hyn yn meddwl nad oes ganddyn nhw ddigon o bethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.